

Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd (ERAMMP)

Adroddiad ERAMMP 65: Datblygu map peryglon i lywio rhaglen fonitro AMR amgylcheddol yn afonydd Cymru.

Stanton, I.C., Tipper, H.J. a Singer, A.C.

Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU

Cyfeirnod Cleient: Llywodraeth Cymru / Contract C210/2016/2017

Fersiwn 1.0.0

Dyddiad: 22/09/2022



Hanes Fersiynau

Fersiwn	Diweddarwyd Gan	Dyddiad	Newidiadau
1.0.0	Tîm yr Awduron	22/09/22	Cyhoeddi

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn electronig yma /

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn electronig yn: www.erammp.wales/65

Neu drwy sganio'r cod QR a ddangosir



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in Welsh

- Cyfes** Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig (ERAMMP)
- Teitl** Adroddiad ERAMMP 65: Datblygu map peryglon i lywio rhaglen fonitro AMR amgylcheddol yn afonydd Cymru
- Cleient** Llywodraeth Cymru
- Cyfeirnod Cleient** C210/2016/2017
- Cyfrinachedd, hawlfraint ac atgynhyrchu** © Hawlfraint y Goron 2022.
Mae'r adroddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan y Drwydded Llywodraeth Agored 3.0.
- Manylion cyswllt UKCEH** Bronwen Williams
Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU (UKCEH) Canolfan Amgylchedd Cymru, Ffordd Deiniol, Bangor, Gwynedd, LL57 2UW
01248 374500
erammp@ceh.ac.uk
- Awdur gohebol** Isobel Stanton
IsoSta@ceh.ac.uk
- Awduron** Isobel C Stanton, Holly J Tipper, Andrew C Singer
- Awduron ac adolygwyr cyfrannol** Rydym yn cydnabod ac yn hynod ddiolchgar am yr amser a'r ymdrech a ddarparwyd gan Geraint Hamer (Llywodraeth Cymru) a Thomaz Andrade (Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru gynt) wrth helpu i adolygu'r gwaith hwn gan gymheiriaid
- Sut i ddyfynnu (hir)** Stanton, I.C., Tipper, H.J. a Singer, A.C. (2022). *Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd (ERAMMP)*. Adroddiad ERAMMP 65:Datblygu map peryglon i lywio rhaglen fonitro AMR amgylcheddol yn afonydd Cymru. (Contract C210/2016/2017)(Canolfan Prosiectau Ecoleg a Hydroleg y DU 06297 a 06810)
- Sut i ddyfynnu (byr)** Stanton, I.C. et al. (2022). Adroddiad ERAMMP 65:Datblygu map peryglon i lywio rhaglen fonitro AMR amgylcheddol yn afonydd Cymru. Adroddiad i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017) (UKCEH 06297/06810)
- Cymeradwywyd gan** James Stakes (Llywodraeth Cymru)
Bridget Emmett (UKCEH)

Byrfoddau a Ddefnyddir yn yr Adroddiad hwn

AMR	Ymwrthedd Gwrthficrobaidd
ARB	Bacteria ymwrthedd gwrthfotig
ARDC	Cemegion ysgogi ymwrthedd gwrthficrobaidd
ARG	Genynnau ymwrthedd gwrthfotig
CSO	Gorlif carthffos cyfunol
Defra	Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
EA	Asiantaeth yr Amgylchedd
ERAMMP	Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig
GIS	System Gwybodaeth Ddaearyddol
NERC	Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol
NRW	Cyfoeth Naturiol Cymru
OPCAT	Dalgylch Gweithredol
PE	Safle Cyfwerth
RNAGS	Rhesymau dros Beidio â Chyflawni Statws Da
UKCEH	Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU
WFD	Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr
WWTP	Gwaith Trin Dŵr Gwastraff

Cynnwys

1	Crynodeb	6
2	Rhagymadrodd	7
2.1	Cefndir	7
2.2	Nodau	7
3	Creu Cofrestr Data	9
3.1	Rhagymadrodd	9
3.2	Dulliau	9
3.2.1	Cyrchu data	9
3.2.2	Echdynnu data a Chreu Cofrestr Data	10
3.2.3	Set Ddata Newydd - Ysbytai.....	10
3.2.4	Set Ddata Newydd - Lleoliadau Nofio Gwylt.....	10
3.3	Allbynnau a Chyfyngiadau	11
3.3.1	Cofrestr ddata	11
3.3.2	Cyfyngiadau setiau data	11
3.3.3	Casgliadau.....	12
4	Creu Mapiau Peryglon	13
4.1	Rhagymadrodd	13
4.2	Dulliau	13
4.2.1	Cronfeydd data	13
4.2.2	Nodweddiad dalgylch gan ddefnyddio GIS	15
4.2.3	Creu mapiau peryglon	15
5	Canlyniadau a Chasgliadau	18
5.1	Mapiau peryglon	18
5.2	Casgliadau	20
6	Gwaith y Dyfodol	21
7	Atodiad-A: Cyflwyniad i Orlifoedd Carthffosydd Cyfun (CSOs)	23
7.1.1	Cefndir	23
7.1.2	Y cyd-destun deddfwriaethol a'r rhesymeg dros flaenoriaethu CSOs.....	23
7.1.3	CSOs ac AMR amgylcheddol.....	24
8	Atodiad-B: Newidynnau Mapiau Helaethrwydd	25
9	Atodiad-C: Newidynnau map cysylltiad	30
10	Atodiad-D: Tablau Sgôr Perygl	31
11	Atodiad-E: Cofrestr Ddata	36
12	Atodiad-F: Set Ddata Ysbytai	47
13	Atodiad-G: Set Ddata Lleoliadau Nofio Gwylt	53
14	Cyfeiriadau	54

1 CRYNODEB

Ymwrthedd gwrthficrobaidd (AMR) un o'r bygythiadau iechyd byd-eang mwyaf difrifol sy'n wynebu cymdeithas. Mae ffynonellau llygredd anthropogenig, e.e., dŵr gwastraff dynol, anifeiliaid a diwydiannol ac amaethyddiaeth, wedi'u cysylltu â lledaenu, dethol a throsglwyddo AMR yn yr amgylchedd.

Comisiynwyd y prosiect hwn gan Lywodraeth Cymru fel ymateb i argymhellion a awgrymwyd yn adroddiad Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig (ERAMMP)-55 (Singer et al., 2021). Nod y prosiect hwn oedd cynnal cyfnod casglu tystiolaeth yn casglu data ar ffynonellau AMR a chemegau sy'n gyrru AMR (ARDCs) i'r amgylchedd, a defnyddio'r data hyn i lywio'r gwaith o greu mapiau perygl sy'n ymchwilio i effeithiau llygredd ar raddfa dalgylch ar AMR yn amgylcheddau afonydd Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar ganlyniadau'r prosiect hwn.

Ar gyfer cam casglu tystiolaeth y prosiect hwn, daethpwyd o hyd i ddata a fyddai'n dylanwadu ar AMR yn yr amgylchedd naturiol. Roedd hyn yn cynnwys data ar ffynonellau anthropogenig gyda'r potensial i ryddhau a/neu godi crynodiadau o ARDCs, genynnau ymwrthedd gwrthfotig (ARGs), a bacteria sy'n gwrthsefyll gwrthfotigau (ARB). Casglwyd setiau data trwy chwilio gwefannau'r llywodraeth, holi arbenigwyr allweddol yn y maes a chynhyrchu setiau data nad oeddent yn bodoli o'r blaen (neu nad oeddent ar gael i'r cyhoedd). Cafodd cyfanswm o 54 o setiau data perthnasol eu nodi a'u crynhoi mewn taenlen ynghyd â'u priodoleddau (gan gynnwys URL, disgrifiad, perthnasedd i fonitro amgylcheddol AMR, a chyflawnrwydd gofodol ac amserol).

Cynhyrchwyd mapiau perygl o nifer y setiau data a oedd wedi'u cynnwys yn y gofrestr ddata, gan briodoli lefel o berygl AMR i bob dalgylch yng Nghymru.

Yn gyntaf, cynhyrchwyd map yn dangos dalgylchoedd gyda lefelau uwch posibl o AMR yn yr amgylchedd. Dylanwadwyd ar y map hwn gan ddata sy'n nodi'r hyn sy'n cyfateb i gyfanswm y boblogaeth a wasanaethir gan weithfeydd trin dŵr gwastraff, gorlifiadau carthffosydd cyfun a'u hyd, niferoedd gwelyau ysbytai, a phresenoldeb mewnbynnau amaethyddol amrywiol. Y dalgylch â'r sgôr perygl uchaf heb ei addasu, sy'n arwydd o fod â'r tebygolrwydd uchaf o lefelau uwch o AMR yn yr amgylchedd, oedd dalgylch Aber Afon Dyfrdwy.

Yn ail, cynhyrchwyd map yn rhestru dalgylchoedd yn ôl y tebygolrwydd y byddai pobl yn dod i gysylltiad ag AMR amgylcheddol. Ysgogwyd y map hwn gan leoliad dyfroedd ymdrochi adloniadol dynodedig a nofio gwyllt mewn dalgylchoedd. Y dalgylchoedd gyda'r tebygolrwydd mwyaf posibl o gysylltiad pobl ag AMR yn yr amgylchedd oedd dalgylchoedd Dwyfor, Dyfi Isaf a Gwyrfaei Seiont.

Yn olaf, cyfunwyd y map peryglon amllder AMR a'r map cysylltiad i greu map yn dangos y perygl a achosir gan amllder AMR mewn dalgylchoedd lle mae cysylltiad dynol yn debygol o ddigwydd. Yn nodedig, dalgylch Gwyrfaei Seiont oedd â'r sgôr perygl uchaf wedi'i addasu ar gyfer potensial ar gyfer helaethrwydd AMR mewn dalgylchoedd lle mae cysylltiad pobl yn fwyaf tebygol o ddigwydd (h.y. gan ddefnyddio'r metrigau hyn, mae cysylltiad dynol â lefelau uchel o AMR yn fwyaf tebygol o ddigwydd).

Gall y mapiau peryglon hyn lywio ac arwain ymgyrchoedd monitro AMR yn y dyfodol, yn ogystal â phrofi a mireinio ein dealltwriaeth o ysgogwyr AMR yn amgylcheddau dyfrol Cymru.

Mae'r casgliadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn wedi'u cyfyngu gan argaeledd data. Bydd argaeledd data mwy gronynnog, a data cyflawn yn amserol ac yn ofodol, yn arwain at amcangyfrifon mwy manwl o beryglon AMR. Mae'r mapiau peryglon i'w defnyddio i brofi tybiaethau am ysgogwyr AMR yn amgylchedd dyfrol Cymru.

2 RHAGYMADRODD

2.1 Cefndir

Rhagfynegwyd y bydd ymwrthedd gwrthficrobaidd (AMR) yn achosi 10 miliwn o farwolaethau erbyn 2050 os nad eir i'r afael â'r her, gan godi o 700,000 o farwolaethau yn 2014 (O'Neill, 2016). Fe wnaeth cyhoeddiad diweddar ddefnyddio modelau ystadegol rhagfynegol gan amcangyfrif bod 1.27 miliwn o farwolaethau ledled y byd wedi'u priodoli'n uniongyrchol i AMR bacteriol yn 2019 (Murray et al., 2022). Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae ffynonellau anthropogenig megis ffermio, amaethyddiaeth, llygredd aer a charthffosiaeth wedi'u cysylltu â lledaenu (Gao et al. 2022), dethol (Murray et al., 2021), a throsglwyddo (Stanton et al., 2021), AMR.

Yn 2021, comisiynwyd adolygiad tystiolaeth ERAMMP (Singer et al., 2021) gan Lywodraeth Cymru i nodi sut mae AMR yn: 1) mynd i mewn i ac yn lledaenu drwy'r amgylchedd dŵr gwledig; 2) effeithio ar iechyd anifeiliaid a phobl; a 3) gallu cael ei drin ar lefel Gymreig gan ddefnyddio dull polisi integredig i sicrhau effeithiolrwydd gwrthfotigau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Fe wnaeth yr adolygiad hwn werthuso'r dystiolaeth a oedd ar gael, nodi bylchau mewn gwybodaeth a gwneud saith argymhelliad ar gyfer lleihau baich AMR amgylcheddol a chemegau sy'n ysgogi ymwrthedd gwrthficrobaidd (ARDCs) yng Nghymru. Roedd yr argymhellion a wnaed yn yr adolygiad tystiolaeth fel sy'n dilyn:

- 1) Lleihau tarddiad ARDCs
- 2) Cael gwared ar yr angen am orlifoedd carthffosydd cyfun (CSOs);
- 3) Lleihau'r llwyth genyn ymwrthedd gwrthficrobaidd (ARG)/ARDC mewn carthion a gwastraff fferm;
- 4) Gwella triniaeth dŵr gwastraff a chael gwared ar facteria sy'n gwrthsefyll gwrthficrobaidd (ARB), ARGs ac ARDCs;
- 5) Sefydlu pwyntiau terfyn gollwng ar gyfer ARDCs ac ARGs
- 6) Sefydlu monitro arferol ar gyfer dŵr croyw a dŵr gwastraff; a
- 7) Bylchau gwybodaeth ymchwil a nodwyd yn yr adolygiad.

Yn seiliedig ar yr argymhellion hyn a gwybodaeth arall a ddarparwyd yn adolygiad ERAMMP, comisiynodd Llywodraeth Cymru y gwaith hwn i ymchwilio i effeithiau llygredd ar raddfa dalgylch ar AMR yn amgylcheddau afonydd Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar ganlyniadau ymarfer casglu tystiolaeth a mapio peryglon. Bydd hyn yn darparu cymorth ar gyfer gwaith arfaethedig yn y dyfodol (gweler Adran 5) a rhaglenni gwyliadwriaeth AMR amgylcheddol yng Nghymru.

2.2 Nodau

Yn seiliedig ar yr argymhellion a wnaed yn adolygiad tystiolaeth 2021 (Singer et al., 2021), nod y pecyn gwaith presennol y manylir arno yn yr adroddiad hwn yw gweithredu fel cam casglu tystiolaeth i ddeall ffynonellau a chronfeydd ARDCs ac ARGs ar raddfa genedlaethol yng Nghymru. Bydd y setiau data geo-ofodol yn helpu i lywio ymgyrchoedd monitro AMR yn y dyfodol yng Nghymru. Bydd y setiau data hefyd yn darparu sylfaen ar gyfer adeiladu map ysgogwyr AMR mwy cynhwysfawr a all helpu i gefnogi monitro amgylcheddol yn y dyfodol a

Ilywio ymyriadau polisi a arweinir gan wyddoniaeth. Cyhoeddwyd gwaith tebyg yn ddiweddar gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer dalgylchoedd afonydd yn Lloegr¹.

Mae gan y cam casglu tystiolaeth hwn ddau brif beth y gellir eu cyflawni:

1. Adrodd ar y setiau data sydd ar gael a'u priodoleddau (disgrifiad, cyflawnder gofodol ac amserol, ac ati), ac asesu eu haddasrwydd i lywio monitro AMR mewn dŵr croyw.
2. Datblygu mapiau perygl AMR Cymru gyfan yn nodi ardaloedd sydd â lefelau uchel posibl o ymwrthedd gwrthficrobaidd, ac ardaloedd lle mae'r risg o drosglwyddo ymwrthedd gwrthficrobaidd i bobl o'r amgylchedd yn uwch.

¹ Asiantaeth yr Amgylchedd Dewis safle peilot gwyliadwriaeth ymwrthedd gwrthficrobaidd ac ymestyn cronfa ddata. 2022. <https://www.gov.uk/government/publications/antimicrobial-resistance-surveillance-pilot-site-selection-and-database-extension>

3 CREU COFRESTR DATA

3.1 Rhagymadrodd

Nod: Casglu setiau data sydd ar gael (yn anthropogenig ac amgylcheddol) sy'n cynrychioli ffactorau a allai ddylanwadu ar AMR yn amgylchedd dyfrol Cymru i'w defnyddio wrth greu'r map peryglon yn Adran 4 yr adroddiad hwn ac i gefnogi ymdrechion monitro yn y dyfodol.

Mae'n hysbys bod llawer o ffactorau'n ysgogi AMR mewn lleoliadau amgylcheddol (ac o bosibl, ffactorau anhysbys ychwanegol). Gall y ffynonellau hyn gynnwys ARDCs, ARGs ac ARB, er enghraifft, gollyngiadau carthion wedi'u trin a heb eu trin (h.y., elifion WWTP a CSOs), dyframaethu, dŵr ffo amaethyddol (e.e., o wasgaru tail, hwsmonaeth anifeiliaid, gollwng slyri a thrin cynydau â gwrthfotigau), tirlenwi, mwyngloddio a dŵr ffo ar y ffyrdd, tanciau septig yn gollwng, a gwastraff diwydiannol (Singer et al., 2021). Mae'r ffactorau hyn yn gwneud mynd i'r afael â mater AMR yn yr amgylchedd yn gymhleth ac yn amlochrog, gyda dosrannu ffynonellau gwasgaredig a phwynt yn dasg heriol. Crëwyd cofrestr ddata o'r ffynonellau posibl hyn o ARDCs, ARGs ac ARB i lywio'r ymarferion mapio peryglon dilynol.

3.2 Dulliau

3.2.1 Cyrchu data

Crëwyd cofrestr ddata yn cynnwys setiau data gofodol y barnwyd eu bod yn berthnasol ar gyfer asesu peryglon AMR yn yr amgylchedd dyfrol yng Nghymru. Cynhwyswyd setiau data yn y gofrestr os oeddent yn cynrychioli ffynonellau posibl o ARDCs, ARB ac ARGs yn yr amgylchedd neu lwybrau cysylltiad posibl i bobl i AMR yn yr amgylchedd. Cafwyd setiau data o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys gwefannau'r llywodraeth², "Canolfan Data Gwybodaeth Amgylcheddol" Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol (NERC),³ ymgynghoriad â thîm ERAMMP⁴, a anfonodd geisiadau ymlaen at arbenigwyr yn y maes, a chwilio ar y we. Cynhwyswyd hefyd setiau data a oedd yn arbennig o berthnasol i Gymru a hanes diwydiannol (e.e. cloddio am lo).

Cyflwynwyd cais am ddata i'r cwmni dŵr Dŵr Cymru Welsh Water, y gwnaethant ymateb iddo ar 22^{ain} Ebrill 2022, gan ddarparu'r data diweddaraf ar eu gweithfeydd trin dŵr gwastraff. Roedd y priodoleddau a ddarparwyd yn y set ddata yn cynnwys: enw lleoliad swyddogaethol; math; lefel triniaeth; math o drwydded; rhif(au) trwydded; cyfeirnod grid cenedlaethol asedau; cyfeirnod(au) grid cenedlaethol gollwng; cywerth cyfanswm y boblogaeth; a chywerth â phoblogaeth llai'r rhai nad ydynt yn breswylwyr. Roedd data cyfatebol ar gyfer y dalgylchoedd y mae'r cwmni dŵr Hafren Dyfrdwy yn eu gwasanaethu yn cael eu cadw'n flaenorol o fewn UKCEH.

Roedd yr holl ddata a setiau data naill ai ar gael i'r cyhoedd (rhai ar gais) neu'n cael eu cadw yn UKCEH.

² e.e., www.gov.uk, <http://lle.gov.wales/home?lang=cy> ac www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

³ <https://eidc.ac.uk/>

⁴ <https://erammp.cymru>

3.2.2 Echdynnu data a Chreu Cofrestr Data

Echdynnwyd metadata a'i fewnforio i daenlen, sydd wedi'i chynnwys yma fel Atodiad-E. Metadata a dynnwyd o bob set ddata yn y gofrestr oedd: teitl, URL, disgrifiad o'r set ddata; defnydd mewn gwylidwriaeth AMR; graddau amserol; maint gofodol; fformat data; a oedd y data yn geo-ofodol; ac a oedd angen diweddarau'r data.

3.2.3 Set Ddata Newydd - Ysbytai

Lluniwyd set ddata ysbyty gan y gall ysbytai fod yn ffynhonnell sylweddol o ARDCs ac ARGs. Defnyddiwyd nifer y gwelyau ym mhob ysbyty fel procsi o faint ysbyty, ac felly effaith ARDC ac AMB. Casglwyd enwau a chodau post ysbytai gan ddefnyddio cyfeiriadur y GIG.⁵ Ni chynhwyswyd ysbytai dydd a chlinigau lle nad oedd gwelyau dros nos, yn ogystal â'r rhai a nodwyd fel cartrefi gofal, ysbytai "Henoed Eiddil eu Meddwl" ac ysbytai "Anabledd Dysgu Seiciatrig", gan fod y rhain yn cael eu hystyried yn gyfleusterau gofal hirdymor, felly nid oeddent o fewn y cwmpas o'r set ddata hon. Fodd bynnag, cynhwyswyd ysbytai seiciatrig safonol, gan y gallent fod yn lleoliadau o ddefnydd fferyllol uchel o bosibl.

Pan oeddent ar gael, casglwyd data nifer gwelyau ysbytai oddi ar adnoddau ar-lein. Cafodd gwefannau'r GIG, ceisiadau rhyddid gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd a data gan Arolygiaeth Iechyd Cymru eu blaenoriaethu fel ffynonellau ag enw da ar gyfer y data hyn. Cafwyd data o Wikipedia (n = 12/82) os nad oeddent ar gael yn unman arall. Ni ellid canfod unrhyw wybodaeth am niferoedd gwelyau ar gyfer 12 ysbyty, ac roedd pob un ohonynt naill ai'n ysbytai cymunedol bach neu'n ysbytai seiciatrig, felly, cawsant eu heithrio o'r dadansoddiad data. Mae'r set ddata ysbytai sydd newydd ei chreu i'w gweld yn Atodiad-F

3.2.4 Set Ddata Newydd - Lleoliadau Nofio Gwyllt

Lluniwyd set ddata ar gyfer lleoliadau nofio gwyllt, a ddiffinnir fel lleoliadau lle mae pobl yn nofio mewn afonydd, pyllau, a llynnoedd. Nid ydynt yn ardaloedd ymdrochi dynodedig, ac felly nid ydynt yn cael eu monitro ar gyfer ansawdd dŵr ymdrochi. Gallai nofio gwyllt o bosibl arwain at gysylltiad â lefelau uchel o AMR amgylcheddol.

Crëwyd y set ddata hon gan ddefnyddio'r rhestr o leoliadau nofio gwyllt o'r wefan "Wild Swimming"⁶, sy'n cyfeirio aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb at gyrff dŵr allweddol. Fodd bynnag, un cyfyngiad yw y gallai'r cyhoedd nofio mewn cyrff dŵr lle bynnag y gallant gael mynediad, waeth beth fo'u statws dŵr ymdrochi dynodedig neu gyfeirio gan wefannau allweddol. Gan ddefnyddio Google Maps, echdynnwyd y cyfesurynnau daearyddol ar gyfer pob lleoliad nofio gwyllt. Defnyddiwyd y cyfesurynnau hyn i greu set ddata geo-ofodol. Mae'r set ddata hon i'w gweld yn Atodiad G.

⁵ <http://www.wales.nhs.uk/ourservices/directory/hospitals>

⁶ http://www.wildswimming.co.uk/wales/?multi_region=wales

3.3 Allbynnau a Chyfyngiadau

3.3.1 Cofrestr ddata

Fe wnaethom ddatblygu cofrestr ddata a gynhwysir yn Atodiad-E.

Cynhwyswyd cyfanswm o 54 o setiau data a allai helpu i lywio'r gwaith o greu map peryglon AMR a chynnal rhaglen fonitro AMR dŵr croyw yng Nghymru.

3.3.2 Cyfyngiadau setiau data

Gan fod setiau data'n dod o wahanol sefydliadau, roedd ansawdd o ran cyflawnrwydd gofodol ac amserol yn amrywio. I amlygu hyn, casglwyd gwybodaeth yn ymwneud ag ehangder amser, maint gofodol, ac a oedd angen diweddariad yn y gofrestr ddata (gweler Atodiad-E).

3.3.2.1 Ansawdd gofodol

Nid oedd un set ddata yn cwmpasu Cymru gyfan ("Mapio Gweithgarwch Cymru" dim ond Sir Benfro). Yn ogystal, ar gyfer WWTPs, mae Dŵr Cymru Welsh Water a Hafren Dyfrdwy yn berchen ar asedau gwaith trin yng Nghymru, felly cofnodwyd y ddwy set ddata yn y gofrestr ddata i ddarparu cwmpas Cymru gyfan o leoliadau WWTP a chyfanswm cyfatebol y boblogaeth.

3.3.2.2 Ansawdd amserol

O'r 54 o setiau data, mae 24 yn dyddio o 2019 neu'n gynharach; o ganlyniad, gallai rhai setiau data elwa o gael eu diweddarau. Nid oedd wyth o'r 54 o setiau data'n cynnwys gwybodaeth am bryd y cawsant eu cynhyrchu, gan ei gwneud yn amhosibl gwybod pa mor ddiweddar y gallent fod. Dosbarthwyd graddau amserol y setiau data hyn fel "Dim gwybodaeth" yn y gofrestr ddata. Y setiau data hyn oedd:

- Awdurdod glo
- Ysbytai yng Nghymru
- Llifoedd Isel 2000 - Estyniad Ansawdd Dŵr (crynodiadau dŵr gwastraff ledled Cymru a Lloegr)
- Nofio gwyllt
- Anifeiliaid Anwes y DU
- Tanciau septig
- Cyfarwyddeb trin dŵr gwastraff trefol
- Mapio gweithgarwch Cymru

O'r 24 o setiau data nad oeddent yn gyfredol (h.y., o 2019 neu'n gynharach), fe wnaethom nodi tair y gwnaethom ystyried eu bod yn setiau data â blaenoriaeth (a ddefnyddir yn y map peryglon yn Adran 4) a fyddai'n elwa o gael eu diweddarau, roedd y rhain yn cynnwys: "Amcangyfrifon o gyfeintiau tail yn ôl math o dda byw a defnydd tir ar gyfer Cymru a Lloegr," "Ansawdd Dŵr Ymdrochi ar gyfer Traethau Dynodedig" a'r set ddata a gedwir gan UKCEH ar gyfer lleoliad WWTP Hafren Dyfrdwy.

3.3.2.3 Ystyriaethau eraill

Cafwyd setiau data o ffynonellau sy'n hygyrch i'r cyhoedd, megis gwefannau'r llywodraeth a sefydliadau ymchwil. Fodd bynnag, gan fod y mwyafrif o setiau data wedi'u cynhyrchu'n allanol, ni allwn warantu cywirdeb y rhain. Nid yw'r mapiau a gyflwynir yn Adran 4 ac Adran 5 ond mor ddibynadwy â'r data sy'n hygyrch i'r cyhoedd a ddefnyddiwyd i'w creu.

3.3.3 Casgliadau

Crëwyd y gofrestr ddata hon i hysbysu am beryglon AMR mewn amgylcheddau dyfrol yng Nghymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar ysgogwyr posibl o AMR amgylcheddol a llwybrau cysylltiad posibl i bobl i AMR yn yr amgylchedd. Mae nifer o'r 54 o setiau data a nodir yma wedi'u defnyddio yn yr adran ddilynol (Adran 4: Creu Mapiau Peryglon) i greu mapiau perygl sy'n cynrychioli lleoliadau posibl o gynnydd mewn AMR yn afonydd Cymru a lleoliadau posibl lle mae mwy o siawns y bydd pobl yn dod i gysylltiad ag AMR yn afonydd Cymru. Gellid defnyddio'r setiau data sy'n weddill a ddarperir yma (h.y., nas defnyddir yn Adran 4: Creu Mapiau Peryglon) i helpu i gefnogi ymchwiliadau yn y dyfodol i'r hyn sy'n ysgogi AMR yn yr amgylchedd ac ymdrechion monitro AMR amgylcheddol.

4 CREU MAPIAU PERYGLON

4.1 Rhagymadrodd

Nod: Creu mapiau peryglon o ddalgylchoedd afonydd Cymru gan osod y potensial ar gyfer mwy o AMR yn nalgylchoedd afonydd a'r potensial ar gyfer cysylltiad dynol ag AMR yn yr afonydd o fewn y dalgylch. Gellid defnyddio'r mapiau hyn fel llinell sylfaen i lywio ymdrechion monitro yn y dyfodol.

Fel y trafodwyd yn yr adran creu cofrestr ddata (Adran 3), bydd nifer o wahanol ffactorau anthropogenig yn dylanwadu ar nifer yr achosion o AMR yn yr amgylchedd. Mae'n hanfodol deall y ffactorau a fydd yn dylanwadu ar berygl helaethrwydd AMR a risg cysylltiad pobl yn yr amgylchedd.

4.2 Dulliau

4.2.1 Cronfeydd data

Defnyddiwyd naw o'r 54 o setiau data a nodir yn Adran 3 yn yr adran hon i greu dau fap peryglon. O'r naw set ddata hyn, echdynnwyd 12 o briodoleddau i'w defnyddio yn y mapiau peryglon (gweler Tabl 4.1).

Y setiau data a'r priodoleddau a ddefnyddiwyd i greu'r map peryglon helaethrwydd AMR oedd y rheini y credwyd eu bod yn cynyddu amllder AMR mewn afonydd a dalgylch yr afon. Roedd y data hyn yn cynnwys cyfrif a hyd gollyngiadau CSO, gollyngiadau preifat â chaniatâd, niferoedd cyfatebol o ran poblogaeth WWTP, gwelyau ysbyty, tail, llwythi slyri a charthion, dyframaethu a gollyngiadau â chaniatâd, a gorchudd tir âr.

Ar gyfer data yn dangos lleoliad WWTP, a gafodd eu graddio yn ôl poblogaeth gyfatebol (PE), fe wnaethom gyfuno dwy set ddata o'r ddau gwmni trin dŵr sy'n gwasanaethu Cymru (Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy). Er i setiau data gael eu huno, darparwyd yr un data gan bob cwmni (cyfanswm PE) ac ni chafodd unrhyw WWTP ei gyfrif ddwywaith gan fod y cwmnïau preifat yn berchen ar wahanol weithfeydd. Defnyddiwyd "cyfeirnod grid cenedlaethol gollwng (NGR)" yn ffafriol fel lleoliad lle mae'r elifant dŵr gwastraff yn mynd i mewn i'r amgylchedd. Lle nad oedd NGR gollwng ar gael, defnyddiwyd "Ased NGR" (ble lleolir y gwaith). Prif gyfyngiad cyfuno'r ddwy set ddata hyn oedd bod data Dŵr Cymru Welsh Water yn gyfredol ym mis Ebrill 2022, tra bod Hafren Dyfrdwy wedi'i diweddarau ddiwethaf yn ~2012, sy'n golygu ei fod wedi dyddio ers tua 10 mlynedd. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y byddai'r seilwaith hwn wedi newid yn sylweddol yn ystod y cyfnod hwn.

Y setiau data a'r priodoleddau a ddefnyddiwyd i greu'r map peryglon cysylltiad AMB oedd y rhai y credwyd eu bod yn cynyddu'r risg o gysylltiad pobl ag AMR amgylcheddol. Roedd y rhain yn cynnwys safleoedd ymdrochi dynodedig a safleoedd nofio gwyllt.

Tabl 4.1: Gwybodaeth set ddata, gan gynnwys ID cronfa ddata, priodoleddau'r set ddata a ddefnyddiwyd, y rhesymeg dros ei defnyddio a'r map y'i defnyddiwyd ynddo.

Set ddata (ID)	Priodoledd	Rhesymeg	Map
Monitro Hyd Digwyddiad – Gorlifoedd Stormydd – 2021 (Cymru a Lloegr) (17)	Cyfrif gollyngiadau CSO	Bydd gollwng dŵr gwastraff heb ei drin yn cynnwys ARB, ARGs ac ARDCs.	Helaethrwydd
Monitro Hyd Digwyddiad – Gorlifoedd Stormydd – 2021 (Cymru a Lloegr) (17)	Hyd gollyngiadau CSO	Bydd gollwng dŵr gwastraff heb ei drin yn cynnwys ARB, ARGs ac ARDCs.	Helaethrwydd
Gollyngiadau â chaniatâd i ddyfroedd rheoledig ag amodau (11)	Gollyngiadau preifat â chaniatâd	Bydd gollwng dŵr gwastraff heb ei drin yn cynnwys ARB, ARGs ac ARDCs.	Helaethrwydd
WWTPs Dŵr Cymru Welsh Water (53) Hafren Dyfrdwy (Severn Trent) (18)	Lleoliad WWTP wedi'i restru yn ôl cyfanswm PE	Bydd gollwng dŵr gwastraff wedi'i drin yn cynnwys ARB, ARGs ac ARDCs.	Helaethrwydd
Ysbytai yng Nghymru (20): Crëwyd ar gyfer y prosiect hwn – AdditionalFile_Datasets.xlsx	Nifer y gwelyau ysbyty	Bydd cyffuriau presgripsiwn, gan gynnwys cemegau gwrthficrobaidd, gan gleifion sy'n cael eu trin mewn ysbytai a bywleiddiaid a ddefnyddir wrth lanhau, yn cael eu rhyddhau i'r amgylchedd i lawr yr afon ac yn dethol a chyd-ddethol ar gyfer AMB.	Helaethrwydd
Amcangyfrifon o gyfeintiau tail yn ôl math o dda byw a defnydd tir ar gyfer Cymru a Lloegr (16)	Llwyth tail	Gall gwasgaru tail ar dir arwain at drwytholchi ARB, ARGs ac ARDCs i'r amgylchedd.	Helaethrwydd
Amcangyfrifon o gyfeintiau tail yn ôl math o dda byw a defnydd tir ar gyfer Cymru a Lloegr (16)	Llwyth slyri	Gall gwasgaru slyri ar dir arwain at drwytholchi ARB, ARGs ac ARDCs i'r amgylchedd.	Helaethrwydd
Amcangyfrifon o gyfeintiau tail yn ôl math o dda byw a defnydd tir ar gyfer Cymru a Lloegr (16)	Llwyth ysgarthion	Gall ysgarthion anifeiliaid ar dir arwain at drwytholchi ARB, ARGs ac ARDCs i'r amgylchedd.	Helaethrwydd
Gollyngiadau a ganiateir i ddyfroedd rheoledig ag amodau (11)	Gollyngiadau a ganiatawyd gan ddyframaethu a physgod cregyn	Gall ysgarthion anifeiliaid i ddŵr a thriniaethau anifeiliaid mewn dyframaethu/pysgodfeydd cregyn arwain at ryddhau ARB, ARGs ac ARDCs i amgylcheddau dŵr i lawr yr afon a dewis ar gyfer AMR.	Helaethrwydd
Gorchudd Tir 2020 (24)	Gorchudd tir â r	Gall defnyddio ARDCs ar gnydau (e.e., plaladdwyr/gwrtaith) arwain at ddewis a chyd-ddewis ar gyfer AMR.	Helaethrwydd
Ansawdd Dŵr Ymdrochi ar Draethau Dynodedig (7)	Safleoedd dŵr ymdrochi dynodedig	Gall safleoedd dŵr ymdrochi dynodedig gyflwyno llwybr i bobl ddod i gysylltiad ag AMR amgylcheddol, yn arbennig ar safleoedd sy'n methu.	Cysylltiad
Nofio gwyllt (54): Crëwyd ar gyfer y prosiect hwn – AdditionalFile_Datasets.xlsx	Safleoedd nofio gwyllt (ac un safle arforgampau)	Nid yw safleoedd nofio gwyllt yn cael eu rheoleiddio na'u monitro o ran ansawdd dŵr Gall pobl sy'n ymdrochi yn y safleoedd hyn fod mewn perygl o ddod i gysylltiad ag AMR amgylcheddol.	Cysylltiad

4.2.2 Nodweddiad dalgyllch gan ddefnyddio GIS

Echdynnwyd y priodoleddau perthnasol o fewn pob set ddata fesul dalgyllch gan ddefnyddio meddalwedd ArcMap v10.6.1 (ESRI, 2022). Defnyddiwyd dalgyllchoedd gweithredol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) i ddiffinio'r dalgyllchoedd ar gyfer y mapiau peryglon (a geir yn haen ddata Cylch 2 Dalgyllchoedd Gweithredol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr).⁷ Cyfrifwyd nifer y pwyntiau arwahanol (e.e., ysbytai/safleoedd nofio gwyllt/safleoedd CSO, ac ati) fesul dalgyllch gweithredol.

Roedd y rhan fwyaf o ddalgyllchoedd afonydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn unig. Fodd bynnag, roedd 17 o ddalgyllchoedd afonydd yn ymestyn dros y ffin rhwng Cymru a Lloegr, gan gynnwys: Gwy; Mynwy; Gwy H ac W – Ithon i'r Gelli; Arrow, Lugg a Frome; Llugwy; Teme Uchaf; Afon Clun; Dwyrain Montfort Hafren Uchaf; Nant Rea; Gogledd Trefaldwyn Hafren Uchaf; Morda a Hafren Gogledd Swydd Amwythig; Hafren Uchaf ac Afon Tanat; Ceiriog; Perry Roden a Tern Gogledd Swydd Amwythig; Wrddymbre; Dyfrdwy Isaf Cored Caer i Geiriog; ac Aber Afon Dyfrdwy.

Cafodd ffynonellau llygredd sy'n tarddu o Loegr (h.y., o'r tu hwnt i'r ffin) a allai effeithio ar helaethrwydd AMR o fewn dalgyllchoedd Cymru eu cynnwys yn y map helaethrwydd AMR. Roedd y ffynonellau llygredd hyn yn Lloegr yn cynnwys gollyngiadau CSO, gollyngiadau â chaniatâd (cwmni dŵr, preifat, dyframaethu a physgodfeydd), nifer y gwelyau ysbyty, tail, llwyth slyri ac ysgarthion, a gorchudd tir â. Ni chynhwyswyd dyfroedd ymdrochi dynodedig a safleoedd nofio gwyllt y tu allan i Gymru, felly roedd y map peryglon cysylltiad yn canolbwyntio ar Gymru yn unig.

Roedd y setiau data a ddefnyddiwyd ar gyfer y newidynnau CSOs, gorchudd tir â, tail, slyri ac ysgarthion i gyd yn cynnwys rhai pwyntiau data Lloegr ar gyfer y dalgyllchoedd a oedd yn croesi'r ffin. Crëwyd set ddata'r ysbytai o gyfeiriadur GIG "Iechyd yng Nghymru"⁸. Cynhwyswyd yr ysbytai a restrwyd yn y cyfeiriadur hwn a oedd yn Lloegr o dan ymddiriedolaethau GIG Cymru. Nid oedd y data gollyngiadau â chaniatâd (a ddefnyddir ar gyfer gollyngiadau dŵr preifat a gollyngiadau dyframaeth a physgod cregyn) yn ymestyn i adrannau Lloegr o'r dalgyllchoedd. Defnyddiwyd y cywerth Seisnig i'r set ddata hon⁹ i sicrhau bod y dalgyllchoedd afonydd Seisnig hyn sy'n effeithio ar Gymru yn cael eu cwmpasu.

4.2.3 Creu mapiau peryglon

4.2.3.1 Model graddio dalgyllch

Unwaith y cysylltwyd y setiau data a ddewiswyd â dalgyllchoedd gweithredol, mewforiwyd y data i Excel. Yma, normaleiddiwyd y priodoleddau yn ôl maint dalgyllch (mewn km²), gan ganiatáu ar gyfer cymhariaeth ar draws yr holl ddalgyllchoedd.

Yna cyfrifwyd yr 20^{fed}, 40^{fed}, 60^{fed} ac 80^{fed} canraddau ar gyfer pob nodwedd a dyranwyd gradd perygl priodoledd-benodol (1 i 5) i ddalgyllchoedd yn dibynnu ar ba ganradd yr oedd y dalgyllch penodol yn perthyn iddi, gyda 5 yn golygu'r categori mwyaf peryglus ac 1 yn golygu'r

⁷ Cyfoeth Naturiol Cymru Dalgyllchoedd Gweithredol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) Cylch 2. 2022. <https://data.gov.uk/dataset/00396e40-dfeb-45e5-af28-03346b932258/water-framework-directive-wfd-operational-catchments-cycle-2>

⁸ <http://www.wales.nhs.uk/eingwasanaethau/cyfeiriadur>

⁹ <https://data.gov.uk/dataset/55b8eaa8-60df-48a8-929a-060891b7a109/consented-discharges-to-controlled-waters-with-conditions>

lleiaf. Ar gyfer pob priodoledd, po uchaf yw'r gwerth (e.e., po uchaf yw nifer y gwelyau ysbyty, neu po fwyaf yw arwynebedd y gorchudd tir âr), yr uchaf yw'r sgôr perygl a neilltuwyd. Mae enghreifftiau o sgorau peryglon penodol i'w gweld yn Ffigur 4.1.

Er mwyn creu'r mapiau peryglon AMR a pheryglon cysylltiad, cafodd y sgorau peryglon priodoledd-benodol hyn eu crynhoi i ddarparu sgôr perygl cyffredinol heb ei addasu ar gyfer pob dalgylch. Yna addaswyd y sgôr perygl hwn trwy raddio pellach yn ganraddau (e.e., ar gyfer y map helaethrwydd AMR, byddai sgorau perygl wedi'u crynhoi heb eu haddasu uwchlaw 27 yn dod yn sgôr perygl terfynol wedi'i addasu o 5 (safle perygl uchaf), i'w ddefnyddio yn y map terfynol). Mae'r tablau a ddarperir yn Atodiad Technegol 1¹⁰) yn dangos yr holl ddata crai a'r cyfrifiadau a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r sgorau peryglon hyn.

OPCAT information		CSO spill count			CSO spill duration			Hospital beds		
OpCatName	Area_km2	count	count/area	hazard	duration	duration/area	hazard	beds	beds/area	hazard
Aeron	164.2252	194	1.18130458	2	1752.75	10.67284331	2	0	0	1
Afan	118.9743	1021	8.581686005	5	6122.5	51.46069791	4	0	0	1
Alaw Goch	169.7018	373	2.197972791	2	3300	19.44587188	2	0	0	1
Alwen	201.0048	85	0.422875474	1	443.75	2.207658723	1	0	0	1
Alyn	246.949	1240	5.021279697	4	6080	24.62046819	3	40	0.161977	4
Arrow, Lugga	910.4094	1208	1.326875579	2	7610.5	8.35942599	2	0	0	1
Arth and Wyr	127.4897	424	3.325759745	3	5094.75	39.96206241	4	0	0	1
Artro	117.9437	442	3.747549552	3	3743.25	31.73759019	3	0	0	1
Braint Cadnar	154.0281	1483	9.628112095	5	14280.75	92.71521362	5	0	0	1
Cefni	144.4057	459	3.178544782	3	3527.5	24.42770527	2	0	0	1
Ceiriog	158.3538	214	1.351404261	2	974.75	6.155520108	1	0	0	1
Clun River	271.2708	169	0.622993702	1	1271.348	4.686639075	1	0	0	1
Clwyd Lower	310.6663	887	2.855153128	3	5154	16.59014568	2	40	0.128755	4
Clwyd Upper	205.4602	371	1.805702516	2	4365.75	21.24864086	2	0	0	1
Clywedog - De	103.1803	884	8.567526941	5	4827	46.78218613	4	800	7.753418	5
Coastal stream	123.3723	435	3.525913928	3	4941.5	40.05357167	4	0	0	1
Coastal stream	184.6698	912	4.938545027	4	12115.25	65.60494258	5	0	0	1
Coastal stream	72.9194	400	5.485508785	4	3683.5	50.51467903	4	0	0	1

Ffigur 4.1: Cyfrifiadau enghreifftiol ar gyfer map peryglon helaethrwydd AMR yn dangos sgorau peryglon priodoledd-benodol (gwyrd). OPCAT = dalgylch gweithredol. CSO = gorlif carthffosydd cyfun. (Darperir y tabl llawn yn Atodiad Technegol 1¹⁰)

4.2.3.2 Pwysoliad model

Roedd mwyafrif y priodoleddau o fewn pob set ddata a ddefnyddiwyd yn y mapiau peryglon wedi'u pwysoli'n gyfartal. Fodd bynnag, cafodd rhywfaint o ddata ei bwysoli, fel sy'n dilyn:

- a) Cyfartalwyd peryglon sgoriau tail, slyri ac ysgarthion. Nid oedd yn amlwg a oedd gorgyffwrdd yn y set ddata hon, ac mae effaith gymharol y ffynonellau gwasgaredig hyn ar gorff dŵr yn ansicr.
- b) Defnyddiwyd sgoriau perygl preifat (yn seiliedig ar nifer y trwyddedau fesul dalgylch) a masnachol WWTP (yn seiliedig ar boblogaeth gyfatebol ar gyfer pob WWTP) fel

¹⁰ Stanton, I.C., Tipper, H.J. & Singer, A.C. (2022). Environment and Rural Affairs Monitoring & Modelling Programme (ERAMMP). ERAMMP Report-65TA1 The development of a hazard map to inform an environmental AMR monitoring programme in Welsh rivers – Abundance and exposure data (Contract C210/2016/2017)(UK Centre for Ecology & Hydrology Projects 06297 & 06810) www.erammp.wales/65TA1

cofnodion ar wahân yn y map peryglon, gan eu bod yn cynrychioli mewnbynnau penodol i'r amgylchedd dŵr croyw gydag effeithiau disgwylidig.


- c) Cafodd cyfrif gollyngiadau a hyd CSO eu cynnwys fel cofnodion ar wahân. Gwnaethpwyd y penderfyniad hwn oherwydd nad yw'r naill na'r llall yn dal yn llawn y briodoledd graidd a fyddai wedi bod yn "gyfaint o fewnbwn carthffosiaeth amrwd." Yn ogystal, cafodd y ddau eu cynnwys gan fod gollyngiadau CSO i afonydd yn cael eu gweld yn fewnbwn arbennig o bwysig mewn perthynas ag AMR, felly roedd wedi'i bwysoli'n gryfach na phriodoledau eraill yn y model. Roedd y penderfyniadau hyn yn eu hanfod yn rhoi pwysoliad dwbl yr un i CSOs a dŵr gwastraff. Mae'r pwysoliad uwch ar gyfer mewnbwn ysgarthion yn cael ei gefnogi gan y llenyddiaeth, oherwydd dangoswyd bod elifiant WWTP yn cynyddu procsi ar gyfer AMR (dosbarth 1 integron) yn sylweddol mewn amgylcheddau afonydd i lawr yr afon (Amos et al., 2018) a dangoswyd bod dŵr gwastraff heb ei drin (fel yr hyn a ollyngir yn ystod digwyddiad gollwng CSO) yn cario digonedd o ARGs ac ARB (Guo et al., 2021). Oherwydd hynny, dylid deall bod y map peryglon yn cynrychioli'n bennaf y graddau y gallai dŵr gwastraff effeithio ar afonydd Cymru.

5 CANLYNIADAU A CHASGLIADAU

5.1 Mapiau peryglon

Mae'r tablau data a ddarperir yn Atodiad Technegol 1¹¹, yn dangos y data wedi'u prosesu ar gyfer pob set ddata a ddefnyddiwyd, a'r graddau peryglon ar gyfer pob set ddata a ddefnyddiwyd fel priodoledd yn y sgorau perygl helaethrwydd AMR a chysylltiad heb eu haddasu ac wedi'u haddasu ar gyfer y mapiau peryglon terfynol.


Mae Ffigur 5.1 yn dangos y map peryglon helaethrwydd AMR terfynol ar gyfer Cymru. Yn ogystal, mae tabl yn dangos enw'r dalgylch, sgôr perygl heb ei addasu a sgôr perygl wedi'i addasu yn Atodiad-D – Tabl 10.1. Mae perygl wedi'i raddio 1 i 5, ag 1 y lleiaf peryglus a 5 y mwyaf peryglus oherwydd presenoldeb posibl cyflenwadau uchel o AMR yn nalgylch yr afon. Ar gyfer pob priodoledd gyfrannol a ddefnyddir yn y map hwn, crëwyd mapiau peryglon unigol (gweler Atodiad-B – Ffigurau 8.1 – 8.10).



Ffigur 5.1: Map Peryglon Helaethrwydd i Gymru. Gweler Atodiad-D – Tabl 10.1 am ragor o fanylion.


¹¹ Stanton, I.C., Tipper, H.J. & Singer, A.C. (2022). Environment and Rural Affairs Monitoring & Modelling Programme (ERAMMP). ERAMMP Report-65TA1 The development of a hazard map to inform an environmental AMR monitoring programme in Welsh rivers – Abundance and exposure data (Contract C210/2016/2017)(UK Centre for Ecology & Hydrology Projects 06297 & 06810) www.erammp.wales/65TA1

Mae Ffigur 5.2 yn dangos y map peryglon datguddiad terfynol ar gyfer Cymru. Yn ogystal, mae tabl yn dangos enw'r dalgylch, sgôr perygl heb ei addasu a sgôr perygl wedi'i addasu yn Atodiad-D – Tabl 10.2. Mae sgoriau perygl wedi'u haddasu yn cael eu gosod rhwng 1 a 5, ag 1 y lleiaf peryglus a 5 y mwyaf peryglus ar gyfer y risg uwch bosibl o gysylltiad pobl ag AMR ym mhob dalgylch afon. Ar gyfer y ddwy briodoledd gyfrannol a ddefnyddir yn y map hwn (dyfroedd ymdrochi dynodedig a lleoliadau nofio gwyllt), crëwyd mapiau peryglon unigol (gweler Atodiad-C – Ffigurau 9.1 a 9.2).



Ffigur 5.2: Map Peryglon Cysylltiad i Gymru. Gweler Atodiad-D – Tabl 3 am ragor o fanylion.

Mae Ffigur 5.3 yn dangos y cyfuniad o'r mapiau helaethrwydd AMR terfynol a pheryglon cysylltiad ar gyfer Cymru. Mae perygl yn cael ei raddio 1 i 5, ag 1 y lleiaf peryglus a 5 y mwyaf peryglus am bresenoldeb cyflenwadau uchel o AMR mewn dalgylchoedd afonydd lle mae cysylltiad dynol ag AMR yn debygol o ddigwydd. Yn nodedig, dalgylch Gwyrfaei Seiont oedd â'r sgôr perygl uchaf wedi'i addasu ar gyfer potensial ar gyfer helaethrwydd AMR mewn dalgylchoedd lle mae cysylltiad pobl yn fwyaf tebygol o ddigwydd (h.y. gan ddefnyddio'r metrigau hyn, mae cysylltiad dynol â lefelau uchel o AMR yn fwyaf tebygol o ddigwydd).



Ffigur 5.3: Cyfuniad o'r mapiau helaethrwydd AMR terfynol a pheryglon cysylltiad ar gyfer Cymru. Roedd dalgyloedd lliw yn nodi dalgyloedd lle gallai cysylltiad ddigwydd (sgôr perygl cysylltiad o 4 neu 5 (h.y., dalgyloch yn cynnwys dyfroedd ymdrochi neu safleoedd nofio gwyllt). Mae dalgyloedd di-liw yn dynodi lle mae cysylltiad yn annhebygol o ddigwydd (sgôr perygl cysylltiad o 1 (h.y., nid yw'r dalgyloch yn cynnwys unrhyw ddyfroedd ymdrochi na safleoedd nofio gwyllt)). Caiff dalgyloedd eu lliwio gan y potensial ar gyfer cynyddu sgôr perygl helaethrwydd AMR. Mae dalgyloedd gyda chylch gwyn gyda 5 ynddo yn dynodi sgorau perygl cysylltiad o 5 (cysylltiad pobl ag AMR yn fwyaf tebygol o ddigwydd).

5.2 Casgliadau

Bydd y mapiau peryglon a grëir yma'n ddefnyddiol ar gyfer hysbysu am ddalgyloedd o ddiddordeb â blaenoriaeth yn y dyfodol mewn perthynas ag AMR a darparu llinell sylfaen o ddata ar gyfer ymdrechion monitro AMR yn amgylcheddau dyfrol Cymru yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae cyflawnrwydd y mapiau peryglon hyn wedi'i gyfyngu gan y data a ddefnyddiwyd i'w creu. Mae cael y data diweddaraf a chywiraf yn hanfodol ar gyfer cywirdeb a defnydd y mapiau hyn.

6 GWAITH Y DYFODOL

Fel y nodwyd yn adolygiad tystiolaeth Adroddiad ERAMMP-55 (Singer et al., 2021), mae bwlch gwybodaeth sylweddol yn bodoli mewn perthynas ag effeithiau CSOs ar AMR yn yr amgylchedd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried hwn yn faes ymchwil blaenoriaethol. Felly, rydym yn cynnig y dylai gwaith yn y dyfodol ymchwilio i hyn, gan ganolbwyntio ar effeithiau CSOs ar AMR yn afonydd Cymru. Ar gyfer y cyd-destun rheoleiddio, rydym wedi cynnwys trafodaeth gefndirol ar CSOs fel Atodiad-A.


Monitro effeithiau CSOs ar AMR yn afonydd Cymru

Rydym yn cynnig y dylai gwaith yn y dyfodol gynnwys ymgyrch fonitro effeithiau CSOs ar AMR yn afonydd Cymru. Gellid defnyddio'r map peryglon helaethrwydd AMR a grëwyd yn y prosiect hwn i lywio ymgyrch o'r fath. Byddai ymgyrch sy'n canolbwyntio ar effaith CSOs yn hwyluso mewnwelediad i'r hyn sy'n debygol o gael y mewnbwn mwyaf effeithiol i'r amgylchedd dyfrol mewn perthynas ag AMR.


Er mwyn llywio'r dewis o safleoedd samplu, byddai defnyddio data CSO am hyd gollyngiadau yn sicrhau bod ystod o wahanol risgiau hyd gollyngiadau'n cael eu cwmpasu. Efallai y byddai hyd gollyngiadau'n well i lywio dewis safleoedd, yn hytrach na chyfrif gollyngiadau gan ei fod yn fesur mwy cywir o ddifrifoldeb gollyngiadau, gan fod data crai cyfrif gollyngiadau y CSO yn cael ei drawsnewid gan ddefnyddio dull 12/24.¹² Mae Ffigur 6.1 yn dangos y CSOs a ollyngodd yn 2021 wedi'u categoreiddio'n dair canradd (risg isel, canolig ac uchel). Mae Ffigur 6.2 yn dangos y CSOs na ollyngodd yn 2021 (363/2427, 14% o safleoedd CSO).

Dylid hefyd ystyried pa mor agos yw lleoliad gollwng y WWTP wrth ddewis safleoedd samplu, er mwyn sicrhau gollyngiadau canfyddadwy CSO o elifiant y WWTP, yn ogystal â'r boblogaeth gyfatebol a wasanaethir, er mwyn sicrhau nad yw safleoedd yn gwasanaethu poblogaethau cymharol fach neu fawr yn unig. Rydym hefyd yn cynghori bod safleoedd samplu'n cwmpasu gwasgariad daearyddol ledled Cymru. Yn olaf, bydd hygyrchedd yn chwarae rhan allweddol wrth ddewis safleoedd.

¹² <https://www.gov.uk/government/publications/water-companies-environmental-permits-for-storm-overflows-and-emergency-overflows/water-companies-environmental-permits-for-storm-overflows-and-emergency-overflows>



Ffigur 6.1: Safleoedd CSO Cymru a ollyngodd yn 2021. Mae hyd gollyngiadau CSO yn cael ei gategoreiddio'n dair canradd.



Ffigur 6.2: Safleoedd CSO Cymru na ollyngodd yn 2021. Mae hyd gollyngiadau CSO yn cael ei gategoreiddio'n dair canradd.

7 ATODIAD-A: CYFLWYNIAD I ORLIFOEDD CARTHFFOSYDD CYFUN (CSOs)

7.1.1 Cefndir

Cynlluniwyd CSOs i atal carthion yn troi'n ôl ar gartrefi a busnesau ac i liniaru pwysau glaw trwm ar y system trin dŵr gwastraff, trwy ganiatáu rhyddhau carthion heb eu trin yn uniongyrchol i gyrrff dŵr i lawr yr afon (h.y., afonydd) yn dilyn stormydd. Fodd bynnag, mae llawer o ffactorau, megis dŵr daear yn mynd i mewn i bibellau, oedran rhwydwaith carthffosiaeth a phoblogaethau rhwydwaith cynyddol, yn achosi i ddigwyddiadau gollwng CSO ddigwydd yn aml, hyd yn oed yn ystod glaw ysgafn. Yng Nghymru yn 2021, cafwyd 92,334 o ollyngiadau gan CSOs, sef 773,462 awr o gyfanswm hyd y gollyngiadau.¹³

7.1.2 Y cyd-destun deddfwriaethol a'r rhesymeg dros flaenoriaethu CSOs

Mae gollyngiadau o CSOs yn cael eu rheoleiddio o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016, sy'n datgan bod rhaid i reoleiddwyr, megis Asiantaeth yr Amgylchedd (EA) yn Lloegr a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yng Nghymru, ganiatáu gollyngiadau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth CSOs â safonau dylunio ac ansawdd dŵr, a diogelu cyrrff dŵr derbyn (h.y. dim dirywiad mewn ansawdd dŵr o'r cyflwr presennol)¹⁴.

Yn 2021, sefydlwyd Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd Cymru ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o CNC, Ofwat, Dŵr Cymru, Hafren Dyfrdwy (Severn Trent yng Nghymru), y Cyngor Defnyddwyr Dŵr ac Afonydd Cymru (Ymddiriedolaeth Afonydd Cymru). Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd y tasglu gynlluniau gweithredu yn nodi ymrwymadau ar gyfer mynd i'r afael â phum maes ar gyfer newid a gwella, gan gynnwys: lleihau effaith weledol CSOs, gwella ansawdd elifiant ac ansawdd afonydd, rheoleiddio gorlifoedd yn amgylcheddol, cynllunio capasiti rhwydwaith yn yr hirdymor, a dealltwriaeth ac ymgysylltiad y cyhoedd.¹⁵

Mae monitro gwell ar ollyngiadau ag EDM (gan ddechrau yn 2012 yng Nghymru) wedi caniatáu tryloywder mewn perthynas â mater CSOs. Mae Dŵr Cymru Welsh Water yn monitro 2,142 o CSOs (o 2021 ymlaen)¹⁶ o'r "dros 2,500 o CSOs yng Nghymru" (ni adroddir ar y niferoedd gwirioneddol), tra bod Hafren Dyfrdwy yn monitro 100% o'u 50 CSOs¹⁷ (er y gallai'r rhain fod ar ochr Lloegr i'r ffin gan rychwantu dalgylchoedd). Fodd bynnag, mae nifer

¹³ Dŵr Cymru yn Cyhoeddi Data CSO 2021 | Afonydd Cymru. <https://afonyddcymru.org/welsh-water-publish-2021-cso-data/>

¹⁴ Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd. Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016. <https://www.legislation.gov.uk/ukxi/2016/1154/introduction/made?view=plain>

¹⁵ Cyfoeth Naturiol Cymru Gorlifoedd Stormydd yng Nghymru. 2022. <https://cyfoethnaturiolcymru.gov.uk/about-us/news-and-events/statements/storm-overflows-in-wales/?lang=cy>

¹⁶ Ymddiriedolaeth yr Afonydd. Monitro Hyd Digwyddiad - Gorlifoedd Stormydd - 2021 (Cymru a Lloegr). <https://data.catchmentbasedapproach.org/datasets/event-duration-monitoring-storm-overflows-2021-england-and-wales/explore?location=52.770475%2C-3.144202%2C7.97>

¹⁷ Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith. Adroddiad ar Orlifoedd Stormydd yng Nghymru. Senedd Cymru; 2022. <https://senedd.wales/media/v4apg5wb/cr-ld15015-e.pdf>

y CSOs nad ydynt yn cael eu caniatáu o gwbl (h.y. heb eu caniatáu gan CNC), yn anhysbys o hyd.

Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith Senedd Cymru adroddiad ar eu hymchwiliad byr i ansawdd dŵr a gollyngiadau carthion yng Nghymru. Roedd yr adroddiad yn manylu ar lythyrau at y Gweinidog dros Newid yn yr Hinsawdd, Julie James AS, a thystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor gan Ofwat, CNC, a'r cwmnïau dŵr sy'n gweithredu yng Nghymru, Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy. Roedd yr adroddiad yn dilyn yr ymchwiliad hwn yn cynnig deg argymhelliad, ac roedd un ohonynt wedi'i anelu at CNC a'r cwmnïau dŵr, gan eu hannog i gyhoeddi data ar CSOs nas caniateir a'u gollyngiadau cysylltiedig.¹⁷ Yn ystod yr ymchwiliad, hysbyswyd y Pwyllgor nad CSOs yw prif ysgogwr materion ansawdd dŵr yn afonydd Cymru. Dywedodd Dŵr Cymru Welsh Water fod oddeutu 5% o'r 'Rhesymau dros Beidio â Chyflawni Statws Da' (RNAGS; metrig WFD) yn dod o CSOs yn eu cyrff dŵr rheoledig. Dywedodd Hafren Dyfrdwy fod 7% o RNAGS yn eu cyrff dŵr rheoledig wedi'u hachosi gan weithgarwch cwmnïau dŵr (nid CSOs yn benodol)¹⁷. Mae'r WFD yn canolbwyntio ar gyflwr cyfartalog cyrff dŵr, a all arwain at leihau neu golli effeithiau aciwt achosion lleol o ollwng CSO. Felly, er bod CSOs yn cyfrannu at ganran fach gyffredinol o fethiannau maent yn debygol o gyfrannu'n bwysig at gysylltiad lleol â llygredd. Yn nodedig, nid yw gofynion y WFD yn cynnwys unrhyw fetrigau sy'n ymwneud ag AMR. Datganodd yr ymchwiliad hefyd fod angen gwybod mwy am effeithiau amgylcheddol CSOs. Datgelodd Ofwat fod y lefelau presennol o ollwng carthion yn annerbyniol ac er "ein bod yn gwybod hyd a nifer yr achosion o ollyngiadau, neu o leiaf mae gennym y data ar hynny nawr [...] nid oes digon yn hysbys am niwed y digwyddiadau hynny"¹⁷.


7.1.3 CSOs ac AMR amgylcheddol

Mae CSOs yn fecanwaith lle mae dŵr gwastraff heb ei drin sy'n gyfoethog mewn ARDCs, ARBs ac ARGs yn mynd i mewn i amgylcheddau dŵr croyw ac arfordirol. Yn ddiweddar, rhoddodd yr Athro Chris Whitty, Prif Swyddog Meddygol Lloegr, a chynrychiolwyr o Ofwat ac Asiantaeth yr Amgylchedd ddatganiad ar y cyd ar y broblem iechyd cyhoeddus o garthion mewn dŵr¹⁸, lle disgrifiwyd y brys i gadw ysgarthion dynol – sy'n debygol o gynnwys AMB – allan o ddŵr y gallai pobl ei amlyncu, megis dyfroedd hamdden, a bod y cyfrifoldeb hwn yn gorwedd "yn sgwâr gyda'r cwmnïau dŵr a'u cyfarwyddwyr". Yn absenoldeb ffynonellau gwanhau sylweddol, disgwylir i'r effaith ar yr amgylchedd derbyn fod yn sylweddol, o ran nifer yr achosion o ARDCs, ARBs ac ARGs.


Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes unrhyw dystiolaeth empirig sy'n mesur effeithiau unigryw CSOs ar AMR yn yr amgylchedd. Bydd yr astudiaeth o effeithiau CSOs ar AMR yn yr amgylchedd yn darparu'r sylfaen wyddonol i hysbysu nid yn unig y rheolyddion amgylcheddol i fonitro a rheoleiddio'r mater, ond hefyd defnyddwyr y dyfrffyrdd hyn, y gallai eu hiechyd fod mewn perygl.

¹⁸ Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Carthion mewn dŵr: problem iechyd cyhoeddus gynyddol. 2022. <https://www.gov.uk/government/news/sewage-in-water-a-growing-public-health-problem>


8 ATODIAD-B: NEWIDYNNAU MAPIAU HELAETHRWYDD




Ffigur 8.1: Map peryglon Cymru yn dangos y perygl sy'n gysylltiedig â gollyngiadau â chaniatâd dyframaethu a physgod cregyn.




Ffigur 8.2: Map peryglon o Gymru yn dangos y perygl sy'n gysylltiedig â gorchudd tir âr.




Ffigur 8.3: Map peryglon o Gymru yn dangos y perygl sy'n gysylltiedig â hyd gollyngiadau CSO.




Ffigur 8.4: Map peryglon o Gymru yn dangos y perygl sy'n gysylltiedig â chyfrif gollyngiadau CSO.




Ffigur 8.5: Map peryglon o Gymru yn dangos y perygl sy'n gysylltiedig â gwelyau ysbyty.




Ffigur 8.6: Map peryglon o Gymru yn dangos y perygl sy'n gysylltiedig ag ysgarthion anifeiliaid.




Ffigur 8.7: Map peryglon o Gymru yn dangos y perygl sy'n gysylltiedig â llwyth tail.



Ffigur 8.8: Map peryglon o Gymru yn dangos y perygl sy'n gysylltiedig â llwyth slyri.




Ffigur 8.9: Map peryglon o Gymru yn dangos y perygl sy'n gysylltiedig â chyfanswm y boblogaeth gyfatebol gan y cwmnïau dŵr Dŵr Cymru Welsh Water a Hafren Dyfrdwy.




Ffigur 8.10: Map peryglon o Gymru yn dangos y perygl sy'n gysylltiedig â gollyngiadau wedi'u trin â chaniatâd o WWTPs preifat.

9 ATODIAD-C: NEWIDYNNAU MAP CYSYLLTIAD



Ffigur 9.1: Map peryglon o Gymru yn dangos y perygl sy'n gysylltiedig â dyfroedd ymdrochi dynodedig.



Ffigur 9.2: Map peryglon o Gymru yn dangos y perygl sy'n gysylltiedig â safleoedd nofio gwyllt.

10 ATODIAD-D: TABLAU SGÔR PERYGL

Tabl 10.1: Sgoriau peryglon mapio amllder AMR. Cafodd y sgorau perygl a ddangosir eu crynhoi o'r holl sgorau perygl penodol i briodoledd (heb eu haddasu) a'u hail-raddio yn sgorau perygl terfynol (wedi'u haddasu). Dangosir sgorau perygl hyd at un lle degol lle bo'n briodol.

Dalgylch gweithredol	Sgôr perygl heb ei addasu	Sgôr perygl wedi'i addasu
Aber Afon Dyfrdwy	36.7	5
Ogwr	35.3	5
Erch	33.7	5
Gwyrfai Seiont	33	5
Dulas Ganol	32	5
Gele	32	5
Clywedog - Dyfrdwy	31.7	5
Nentydd arfordirol De Penfro a De Aberdaugleddau - Pentywyn i Landshipping	31.7	5
Morda a Hafren Gogledd Swydd Amwythig	31.7	5
Elái	31	5
Cleddau Gorllewinol	30.7	5
Y Ddawan a Thregatwg	30.3	5
Alyn	30.3	5
Taf d s Cynon	30.3	5
Tawe	30	5
Llwyd	29.7	5
Crigyll Caradog	29.7	5
Wysg Isaf y Fenni	28.7	5
Llwchwr	28	5
Clwyd Isaf	27	4
Cleddau Dwyreiniol	27	4
Gwy	27	4
Dyfrdwy Isaf Cored Caer i Geiriog	26.7	4
Nentydd arfordirol - Druidston i Fae Abergwaun	26.7	4
Nentydd arfordirol Gogledd Aberdaugleddau - Llangwm Pill i St Anne's Head	26.7	4
Rhymni	26.7	4
Perry Roden a Tren Gogledd Swydd Amwythig	26.3	4
Nentydd arfordirol - Aberteifi i Aberaeron	26	4
Teifi	25.7	4
Nentydd arfordirol - De Gŵyr	25.3	4
Wysg Aberhonddu i'r Fenni	25.3	4
Gwendraeth Fach a Fawr	25.3	4
Hafren Uchaf Gogledd Montfort	25	4
Teme Uchaf	25	4
Wrddymbre	25	4
Braint Cadnant Lleiniog	24.7	4
Tywi	24.7	4

Dalgylch gweithredol	Sgôr perygl heb ei addasu	Sgôr perygl wedi'i addasu
Gwy H a G d s Llugwy	24.3	4
Nentydd arfordirol a Nanhyfer - Bae Abergwaun i Aberteifi	23.7	4
Dwryrd	23.3	4
Conwy Isaf	23	3
Dwyfor	23	3
Nedd	23	3
Ogwen Ddu	23	3
Nant Rea	23	3
Llugwy - Ynys Môn	22.7	3
Reens West	22.7	3
Dyfrdwy Ceiriog Canol i Alwen	22.3	3
Arrow, Llugwy a Frome	22	3
Soch	22	3
Ebwy Sirhywi	21.3	3
Arth ac Wyre	21	3
Nentydd arfordirol - Gogledd Gŵyr	21	3
Taf	21	3
Mynwy	20.7	3
Wygyr	20.7	3
Glaslyn	20.3	2
Cynffig	20.3	2
Llugwy	20.3	2
Rheidol a Clarach	20.3	2
Alaw Goch	20.3	2
Cefni	20	2
Llynfi	20	2
Rhondda	20	2
Artro	19	2
Hafren Uchaf Montfort Dwyrain	19	2
Hafren Uchaf Montfort De	19	2
Taf u s Cynon	19	2
Cynon	18	2
Aber Mawddach De	17.3	2
Aeron	17.3	2
Troddi	17.3	2
East Reens	17	2
Dyfi Isaf	16.3	2
Ithon	16.3	2
Elwy	16.3	2
Afan	16	2
Hafren Uchaf ac Afon Cain	16	2
Irfon	15.7	2
Hafren Uchaf Trannon Clywedog	15.3	1
Ceiriog	15.3	1
Clwyd Uchaf	15.3	1

Dalgylch gweithredol	Sgôr perygl heb ei addasu	Sgôr perygl wedi'i addasu
Hafren Uchaf ac Afon Tanat	15.3	1
Hafren Uchaf ac Afon Rhiw	14.7	1
Alwen	14.7	1
Hafren Uchaf Twrch a Banwy	14.7	1
Wysg Aberhonddu Uchaf	14.7	1
Ystwyth	14.7	1
Afon Clun	14.3	1
Gogledd Aber Mawddach	14.3	1
Gwy H ac W - Ithon i'r Gelli Gandryll	14.3	1
Conwy Uchaf	14	1
Mawddach	14	1
Wnion	13.3	1
Dysynni	13	1
Dyfrdwy Uchaf uwchben Alwen	12	1
Dyfi Uchaf	12	1
Hafren Uchaf ac Afon Efyrynwy	12	1
Gwy H ac W u s Ithon	8.7	1

Tabl 10.2: Sgorau perygl map cysylltiad AMR. Cafodd y sgorau perygl a ddangosir eu crynhoi o'r holl sgorau perygl penodol i briodoledd (heb eu haddasu) a'u hail-raddio yn sgorau perygl terfynol (wedi'u haddasu).

Dalgylch gweithredol	Sgôr perygl heb ei addasu	Sgôr perygl wedi'i addasu
Dwyfor	10	5
Dyfi Isaf	10	5
Gwyrfaei Seiont	10	5
Artro	6	4
Clwyd Isaf	6	4
Nentydd arfordirol - Aberteifi i Aberaeron	6	4
Nentydd arfordirol - Druidston i Fae Abergwaun	6	4
Nentydd arfordirol a Nanhyfer - Bae Abergwaun i Aberteifi	6	4
Nentydd arfordirol Gogledd Aberdaugleddau - Llangwm Pill i St Anne's Head	6	4
Nentydd arfordirol De Penfro a De Aberdaugleddau - Pentywyn i Landshipping	6	4
Conwy Isaf	6	4
Crigyll Caradog	6	4
Dyfrdwy Ceiriog Canol i Alwen	6	4
Dulas Ganol	6	4
Dwryrd	6	4
Dysynni	6	4
Erch	6	4
Glaslyn	6	4
Irfon	6	4
Llynfi	6	4

Dalgylch gweithredol	Sgôr perygl heb ei addasu	Sgôr perygl wedi'i addasu
Mawddach	6	4
Aber Mawddach De	6	4
Mynwy	6	4
Nedd	6	4
Rheidol a Clarach	6	4
Wysg Aberhonddu i'r Fenni	6	4
Wysg Isaf y Fenni	6	4
Ystwyth	6	4
Dyfrdwy Uchaf uwchben Alwen	5	4
Tywi	5	4
Wysg Aberhonddu Uchaf	5	4
Gwy	5	4
Gwy H ac W - Ithon i'r Gelli Gandryll	5	4
Aeron	2	1
Afan	2	1
Alaw Goch	2	1
Alwen	2	1
Alyn	2	1
Arrow, Llugwy a Frome	2	1
Arth ac Wyre	2	1
Braint Cadnant Lleiniog	2	1
Cefni	2	1
Ceiriog	2	1
Afon Clun	2	1
Clwyd Uchaf	2	1
Clywedog - Dyfrdwy	2	1
Nentydd arfordirol - Gogledd Gŵyr	2	1
Nentydd arfordirol - De Gŵyr	2	1
Conwy Uchaf	2	1
Cynon	2	1
Aber Afon Dyfrdwy	2	1
Dyfrdwy Isaf Cored Caer i Geiriog	2	1
Dyfi Uchaf	2	1
East Reens	2	1
Cleddau Dwyreiniol	2	1
Ebwy Sirhywi	2	1
Elwy	2	1
Elái	2	1
Gele	2	1
Gwendraeth Fach a Fawr	2	1
Ithon	2	1
Cynffig	2	1
Llugwy - Ynys Môn	2	1
Llwyd	2	1
Llwchwr	2	1

Dalgylch gweithredol	Sgôr perygl heb ei addasu	Sgôr perygl wedi'i addasu
Llugwy	2	1
Gogledd Aber Mawddach	2	1
Morda a Hafren Gogledd Swydd Amwythig	2	1
Ogwr	2	1
Ogwen Ddu	2	1
Perry Roden a Tern Gogledd Swydd Amwythig	2	1
Nant Rea	2	1
Reens West	2	1
Rhondda	2	1
Rhymni	2	1
Hafren Uchaf Trannon Clywedog	2	1
Hafren Uchaf Twrch a Banwy	2	1
Hafren Uchaf ac Afon Cain	2	1
Hafren Uchaf ac Afon Rhiw	2	1
Hafren Uchaf ac Afon Tanat	2	1
Hafren Uchaf ac Afon Efyrynwy	2	1
Hafren Montfort Uchaf Dwyrain	2	1
Hafren Uchaf Gogledd Montfort	2	1
Hafren Montfort Uchaf De	2	1
Soch	2	1
Taf	2	1
Taf d s Cynon	2	1
Taf u s Cynon	2	1
Tawe	2	1
Teifi	2	1
Teme Uchaf	2	1
Y Ddawan a Thregatwg	2	1
Troddi	2	1
Cleddau Gorllewinol	2	1
Wnion	2	1
Wrddymbre	2	1
Gwy H a G d s Llugwy	2	1
Gwy H ac W u s Ithon	2	1
Wygyr	2	1

11 ATODIAD-E: COFRESTR DDATA

ID	Teitl	URL	Disgrifiad set ddata	Defnydd mewn gwylidwriaeth AMB	Ehangder amserol	Ehangder gofodol	Fformat data	Geo-ofodol	Angen diweddar u?
1	Adroddiad Asiantaeth yr Amgylchedd 1999 ar slwtsh carthion	http://www.environmentdata.org/download/file/ealit:4812/ealit:4812/1/0/OBJ/PDF/NA	Mae'n cynnwys data manwl ar gyfartaledd cynhyrchu slwtsh, triniaethau, ansawdd (crynnodiadau o lygryddion), arwynebedd y tir a ddefnyddir a dulliau taenu.	Gall taenu biosolidau ar dir fod yn fecanwaith pwysig ar gyfer lledaenu AMR yn yr amgylchedd ac yn ffynhonnell cysylltiad i bobl trwy grwydro, bwyd ac aerosolau.	Adroddiad 1999	Y Deyrnas Unedig	PDF	N	Y
2	Maes Awyr	https://ourairports.com/data/	Rhestr o leoliadau meysydd awyr ledled y byd.	Ardaloedd lle gall teithwyr rhyngwladol ddod â genynnau/organebau AMR newydd i mewn	Wedi ei ddiweddarau ddiwethaf: Ionawr 2021	Byd	CSV	Y	N
3	Adroddiadau Demograffig Gwell Grŵp Data Demograffig Da Byw yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) (Gwartheg, Moch)	Gwartheg: http://apha.defra.gov.uk/documents/surveillance/diseases/ddg-dem-report-cattle2019.pdf Pig: http://apha.defra.gov.uk/documents/surveillance/diseases/ddg-dem-report-pig2019.pdf	Adroddiadau APHA yn unig, yn canolbwyntio ar wybodaeth ychwanegol i helpu i ddeall symudiad clefydau mewn anifeiliaid, a thrafod mewnforion, allforion a chludiant.	Gall cemegau gwrthficrobaidd, organebau ymwrthol o garthion anifeiliaid drwytholchi o'r tir i mewn i gyrff dŵr.	2019 (gwartheg), 2018 (moch)	Prydain Fawr	PDF	N	Y
4	Dwysedd poblogaeth Grŵp Data Demograffig Da Byw yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) (Gwartheg, Defaid, Geifr, Dofednod)	Gwartheg: http://apha.defra.gov.uk/documents/surveillance/diseases/ddg-pop-report-cattle2019.pdf Sheep: http://apha.defra.gov.uk/documents/surveillance/diseases/ddg-pop-report-sheep2019.pdf Pig: http://apha.defra.gov.uk/documents/surveillance/diseases/ddg-pop-report-pig2019.pdf Goat:	Setiau data sy'n cynnwys dwysedd poblogaeth gwartheg, dofednod, geifr a defaid ledled y DU (2019) ar raddfa 1km (ar gyfartaledd dros radiws o 15km) yn seiliedig ar adroddiadau o ffermydd ar bob math o anifail.	Gall cemegau gwrthficrobaidd ac organebau ymwrthol o garthion anifeiliaid drwytholchi o'r tir i mewn i gyrff dŵr.	2019	Prydain Fawr	Raster	Y	Y

ID	Teitl	URL	Disgrifiad set ddata	Defnydd mewn gwyliadwriaeth AMB	Ehangder amserol	Ehangde r gofodol	Fformat data	Geo- ofodol	Angen diweddar u?
		http://apha.defra.gov.uk/documents/surveillance/diseases/ddg-pop-report-goat2019.pdf Poultry: http://apha.defra.gov.uk/documents/surveillance/diseases/ddg-pop-report-avian2019.pdf							
5	Dyframaethu	https://www.seafish.org/document/?id=4382B7AA-FFCE-448B-850D-46A8F7959115	Dosbarthiad gweithgarwch dyframaethu a chyfraniad amcangyfrifedig at gyflogaeth ledled Cymru	Gall gwrthficrobiaid a ddefnyddir mewn dyframaethu drwytholchi i ddyfrffyrdd i lawr yr afon a gallant ddewis ar gyfer bacteria a genynnau sy'n gwrthsefyll gwrthfotigau a all hefyd ledaenu i gyrff dŵr i lawr yr afon. Yn ogystal, gall bwyta pysgod arwain at ddod i gysylltiad â bacteria a genynnau sy'n gwrthsefyll gwrthfotigau.	Cyhoeddwyd: Medi 2016	Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon	PDF	N	Y
6	Ardaloedd sy'n effeithio ar ddyfroedd ymdrochi	http://lle.gov.wales/catalogue/item/AreasAffectingBathingWaters/?lang=en	Mae'r set ddata hon yn cynnwys o bolygonau sy'n ymwneud â phob safle a nodir o dan y Gyfarwydddeb Dŵr Ymdrochi (76/160/EEC); fodd bynnag, nid oes gan y polygonau hyn unrhyw statws ffurfiol o dan y Gyfarwydddeb Dŵr Ymdrochi.	Gall ardaloedd sy'n effeithio ar safleoedd dŵr ymdrochi arwain at fewnbwn llygredd anthropogenig (gan gynnwys gwrthficrobiaid ac organebau AMR) a gallent o bosibl gysylltu ag ymdrochwyr.	2022	Cymru	SHP	Y	N
7	Ansawdd Dŵr Ymdrochi ar Draethau Dynodedig	http://lle.gov.wales/catalogue/item/BathingWaterQualityAtDesignatedBeaches/?lang=en	Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn monitro safleoedd dŵr ymdrochi a nodir o dan Gyfarwydddeb Dyfroedd Ymdrochi 2006/7/CE yng Nghymru. Cymerir samplau trwy gydol y tymor ymdrochi o fis Mai i ddiwedd mis Medi ac fe'u dadansoddir ar gyfer dau baramed: Escherichia coli ac enterococci berfeddol. Cynhyrchir dosbarthiad ansawdd dŵr ymdrochi, yn seiliedig yn gyffredinol ar 4 blynedd o ganlyniadau samplu, ar gyfer pob dŵr ymdrochi ar ddiwedd pob tymor.	Gallai ansawdd dŵr ymdrochi isel olygu bod mwy o bobl yn dod i gysylltiad ag AMR.	2016	Cymru	XLSX	Y	N
8	Cyfraddau defnydd bio-solidau o British Survey Fertilizer Practices	https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/british-survey-of-fertiliser-practice-dataset	Mae'r set ddata hon yn rhoi ystadegau blynyddol ar y defnydd o wrtaith ar y prif gnydau a glaswellt a dyfir ar dir mawr Prydain. Caiff ei ddiweddarau bob blwyddyn	Gall taenu biosolidau ar dir fod yn fecanwaith pwysig ar gyfer lledaenu AMR yn yr amgylchedd ac yn ffynhonnell cysylltiad i bobl a	Diweddarir yn flynyddol (Data	Prydain Fawr	ODS	N	N

ID	Teitl	URL	Disgrifiad set ddata	Defnydd mewn gwyliadwriaeth AMB	Ehangder amserol	Ehangde r gofodol	Fformat data	Geo-ofodol	Angen diweddar u?
			pan gyhoeddir yr adroddiad blynyddol ar yr Arolwg Prydeinig o Arferion Gwrtaith.	bywyd gwyllt trwy grwydro, bwyd ac aerosolau.	wedi'u diweddarau: 17/12/20)				
9	Gorchudd Tir CEH a Phlaladdwyr 2019	Mapiau cenedlaethol cyntaf o'r defnydd o blaladdwyr a gwrtaith Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU (ceh.ac.uk)	Gorchudd Tir CEH a: Mapiau plaladdwyr defnydd plaladdwyr cyfartalog blynyddol ledled Cymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r cynnyrch yn darparu amcangyfrifon defnydd ar gyfer 162 o wahanol gynhwysion gweithredol gan gynnwys chwynladdwyr, pryfleiddiaid, molysgladdwyr a ffwngladdiadau.	Mae crynodiadau plaladdwyr yn gyd-ddewisol ar gyfer AMR ac felly gall eu presenoldeb yn yr amgylchedd gynyddu AMR yno	2019	Y Deyrnas Unedig	Mapiau	N	Y
10	Awdurdod glo	Gwyliwr Mapiau Rhyngweithiol Awdurdod Glo (bgs.ac.uk)	Map yn dangos ardaloedd adrodd am lo ym Mhrydain Fawr	Gall dŵr ffo mwyngloddio achosi cyd-ddethol AMR yn yr amgylchedd	Dim gwybodaeth	Prydain Fawr	Map rhyngweithiol ar-lein	Y	Aneglur
11	Gollyngiadau â chaniatâd i ddyfroedd rheoledig gydag amodau	Lle - Gollyngiadau â chaniatâd i Dyfroedd Rheoledig gydag Amodau (llyw.cymru)	Mae'r set ddata hon yn rhoi manylion am drwyddedau fel sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau Trwyddedau Amgylcheddol. Mae gollyngiadau â chaniatâd yn cynnwys WWTP, dyframaethu a physgodfeydd cregyn, gollyngiadau diwydiannol ac ati	Gollwng gwrthficrobiaid ac organebau ag ymwrthedd i amgylcheddau dŵr.	2013	Cymru	XLSX	Y	N
12	Cymru a Lloegr - Parthau Dosbarthu Pysgod Cregyn Cymru a Lloegr	http://data.cefas.co.uk/#/View/79	Map o barthau dosbarthu molysgiaid Dwygragenog (pysgod cregyn) yng Nghymru a Lloegr.	Gall gwelyau pysgod cregyn fod yn agored i garthion ac mae ganddynt ymwrthedd gwrthficrobaidd y gellir ei drosglwyddo i bobl trwy fwyta pysgod cregyn (amrwd neu wedi'u coginio).	Diweddarir yn Chwarterol Dyddiad cyfeirnod Set Ddata 24/11/2020 (Adolygiad)	Cymru a Lloegr	Ffeil Siâp ESRI	Y	N
13	Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol – Safleoedd Diwydiannol	Lle - Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol - Safleoedd Diwydiannol (llyw.cymru)	Mae'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, ymhlith pethau eraill, yn gweithredu'r Gyfarwydddeb IPPC (Atal a Rheoli Llygredd Integredig) (EC/61/96) yng Nghymru a Lloegr.	Gall llygredd diwydiannol fod yn fan problemus lleol ar gyfer AMB	2013	Cymru a Lloegr	XLSX	Y	N
14	Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol – Safleoedd Gwastraff	Lle - Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol - Safleoedd Gwastraff (llyw.cymru)	Mae trwydded rheoli gwastraff yn ddogfen gyfreithiol a gyhoeddir o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Mae trwydded yn awdurdodi trin, cadw neu waredu gwastraff yn y tir neu arno. Unwaith y byddwn wedi rhoi trwydded, ni ellir newid y	Yn gyffredinol, gall llygredd fod yn ysgogwr i AMR.	2022	Cymru	XLSX	Y	N

ID	Teitl	URL	Disgrifiad set ddata	Defnydd mewn gwyliadwriaeth AMB	Ehangder amserol	Ehangde r gofodol	Fformat data	Geo-ofodol	Angen diweddar u?
			gweithgareddau na'r arwynebedd tir oni bai bod y drwydded yn cael ei haddasu.						
15	Digwyddiadau llygredd amgylcheddol	Lle - Digwyddiadau Llygredd Amgylcheddol (llyw.cymru)	Mae'r set ddata hon yn cynnwys manylion digwyddiadau llygredd a adroddwyd i CNC. Dim ond digwyddiadau diogelu'r amgylchedd sydd wedi'u cadarnhau a'u cau sy'n cael eu cynnwys.	Gall llygredd anthropogenig arwain at gyfansoddion gwrthficrobaidd a chyd-ddethol eraill yn mynd i mewn i'r amgylchedd (a dewis ar gyfer organebau ymwrthol mewn organebau amgylcheddol a chlinigol) a bacteria a genynnau gwrthiannol yn mynd i mewn i'r amgylchedd.	04/2013-02/2016	Cymru	XLSX	Y	Y
16	Amcangyfrifon o gyfeintiau tail yn ôl math o dda byw a defnydd tir ar gyfer Cymru a Lloegr	https://catalogue.ceh.ac.uk/documents/517717f7-d044-42cf-a332-a257e0e80b5c	Amcangyfrifon o gyfeintiau blynyddol y tail a gynhyrchir gan chwe math eang o dda byw fferm ar gyfer Cymru a Lloegr ar gydraniad 10 km, wedi'i fodolu â MANURES-GIS.	Gall gwrthficrobiaid ac AMR a geir mewn tail drwytholchi o dir i afonydd a dŵr daear a hefyd effeithio ar fywyd gwyllt a cherddwyr.	2010-01-01 i 2010-12-31	Lloegr a Chymru	SHP	Y	Y
17	Monitro Hyd Digwyddiad - Gorlifoedd Stormydd - 2021 (Cymru a Lloegr)	Monitro Hyd Digwyddiad - Gorlifoedd Stormydd - 2021 (Cymru a Lloegr) Monitro Hyd Digwyddiad - Gorlifoedd Stormydd - 2021 (Cymru a Lloegr) Dull Seiliedig ar Ddalgylich	Mae'r data'n dangos pa mor aml ac am ba mor hir y gollyngwyd gorlifoedd stormydd wedi'u monitro yn ystod 2021 ar gyfer 10 cwmni dŵr sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr.	Gall gollwng dŵr gwastraff heb ei drin i gyrff dŵr i lawr yr afon gynyddu helaethrwydd crynodiadau gwrthficrobaidd ac organebau ag ymwrthedd	2021	Lloegr a Chymru	SHP	Y	N
18	Lleoliadau WWTP Hafren Dyfrdwy a phoblogaethau cyfatebol	Amherthnasol - cedwir data yn fewnol yn UKCEH	Mae'r set ddata hon yn rhoi manylion am asedau WWTP Hafren Dyfrdwy a lleoliadau pibellau gollwng, y math o driniaeth dŵr gwastraff, rhif y drwydded a chyfanswm cyfatebol y boblogaeth.	Gollwng gwrthficrobiaid ac organebau ag ymwrthedd o ddŵr gwastraff wedi'i drin i amgylcheddau dŵr.	~2012	Yn cwmpasu rhan o Gymru. Mae gweddill Cymru yn dod o dan Dŵr Cymru (set ddata 53).	SHP	Y	Y
19	Tirlenwi Hanesyddol	Lle - Safleoedd Tirlenwi Hanesyddol (llyw.cymru)	Set ddata ofodol yw Safleoedd Tirlenwi Hanesyddol. Mae'r rhain yn safleoedd tirlenwi sydd wedi'u tynnu oddi ar y	Trwytholchi gwrthficrobiaid ac AMR o safleoedd tirlenwi i ddyfrffyrdd	2020	Cymru	SHP	Y	N

ID	Teitl	URL	Disgrifiad set ddata	Defnydd mewn gwyliadwriaeth AMB	Ehangder amserol	Ehangde r gofodol	Fformat data	Geo-ofodol	Angen diweddar u?
			Safleoedd Tirlenwi Awdurdodedig pan newidiodd statws y drwydded gwastraff.						
20	Ysbytai yng Nghymru	Iechyd yng Nghymru Ysbytai	Cyfeirlyfr o holl ysbytai Cymru Sylwer: Rydym wedi creu set ddata geo-ofodol gyda lleoliad ysbyty a rhif gwely yn seiliedig ar y data hwn gweler atodiad F	Mae gwastraff ysbyty yn ffynhonnell bwysig o wrthfotigau ac AMR i'r amgylchedd dŵr.	Dim gwybodaeth	Cymru	Gwefan	N	Aneglur
21	Ardaloedd Adar Pwysig y DU	https://opendata-rspb.opendata.arcgis.com/datasets/c38f60f68f094f269d90db26b1381837_0	Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar - Ardaloedd Pwysig i Adar, wedi'i ddiweddarau ym mis Chwefror 2020 i ddatrys mater yr amcanestyniad	Gall adar mudol ddod ag organebau ag ymwrthedd gwrthficrobaidd ar draws pellteroedd hir i mewn i'r DU a'u dosbarthu o fewn y DU	Data wedi'u diweddarau: Chwefror 2020	Y Deyrnas Unedig	SHP	Y	N
22	Rhestr o gyfleusterau mwyngloddio caeedig	Lle - Rhestr o Gyfleusterau Gwastraff Mwyngloddio Caeedig (llyw.cymru)	Mae'r Gyfarwydeb Gwastraff Mwyngloddio Ewropeaidd (2006/21/EC) yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau greu rhestr o gyfleusterau gwastraff mwyngloddio wedi'u cau neu wedi'u gadael sy'n achosi effeithiau amgylcheddol difrifol, a sicrhau bod y rhestr eiddo hon ar gael i'r cyhoedd.	Gall dŵr ffo mwyngloddio achosi cyd-ddethol AMR yn yr amgylchedd	2015	Cymru	SHP	Y	Y
23	Arolwg amaethyddol mis Mehefin	https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/structure-of-the-agricultural-industry-in-england-and-the-uk-at-june	Ystadegau blynyddol manwl ar strwythur y diwydiant amaethyddol ar 1 Mehefin yn y DU.	Gall arferion amaethyddol arwain at wrthficrobau, organebau ag ymwrthedd yn mynd i mewn i gyrff dŵr.	1984 - 2020 (Ystadegau Blynyddol)	Y Deyrnas Unedig	ODS	N	N
24	MAP GORCHUDD TIR 2020	Mapiau Gorchudd Tir UKCEH Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU	Mae Mapiau Gorchudd Tir (LCMs) UKCEH yn mapio Gorchudd Tir y DU. Maent yn gwneud hyn drwy ddisgrifio'r deunydd ffisegol ar wyneb y Deyrnas Unedig gan ddarparu set ddata genedlaethol ddi-dor o ddsbarthiadau gorchudd tir o laswelltir, coetir a dŵr croyw i ardaloedd adeiledig trefol a maestrefol.	Bydd y map cnydau'n nodi'r defnydd tir a'r cnwd a dyfir arno a fydd yn dod i gasgliad ynghylch y math o bladdwyr/chwynladdwyr y gellir eu canfod yn lleol a sy'n effeithio ar AMR.	2020	Prydain Fawr	SHP	Y	N
25	Map Gorchudd Tir a Chnydau 2015-2021	UKCEH Gorchudd Tir@ plws: Cnydau Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU	UKCEH Gorchudd Tir@ plws: Mapiau cnydau oedd y mapiau manwl, rhyngweithiol, digidol cyntaf o gnydu ym Mhrydain Fawr.	Bydd y map cnydau'n nodi'r defnydd tir a'r cnwd a dyfir arno a fydd yn dod i gasgliad ynghylch y math o bladdwyr/chwynladdwyr y gellir eu canfod yn lleol a sy'n effeithio ar AMR.	2021	Prydain Fawr		Y	N
26	Yr ystadegau diweddaraf ar gyfer	https://www.gov.uk/government/statistics/animal-feed-	Ystadegau misol ar y defnydd o ddeunydd crai a chynhyrchu porthiant anifeiliaid	Gall bwyd anifeiliaid gynnwys gwrthficrobaidd a chemegau cyd-	1990-2019	Prydain Fawr	ODS	N	Y

ID	Teitl	URL	Disgrifiad set ddata	Defnydd mewn gwyliadwriaeth AMB	Ehangder amserol	Ehangde r gofodol	Fformat data	Geo-fodol	Angen diweddar u?
	cynhyrchu porthiant anifeiliaid	production	cyfansawdd gan gynhyrchwyr ym Mhrydain Fawr.	ddewis gan wneud eu cynhyrchu a defnyddio yn ffynhonnell o ymwrthedd gwrthficrobaidd.					
27	LF2000-WQX (crynodiadau dŵr gwastraff ar draws Cymru a Lloegr)	Meddalwedd Llifoedd Isel Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU (ceh.ac.uk)	Mae meddalwedd Llifoedd Isel CEH yn arf cefnogi penderfyniadau sy'n amcangyfrif llifoedd afonydd mewn safleoedd anafesuredig.	Bydd crynodiadau dŵr gwastraff yn cael eu casglu am y risg o gysylltiad i'r rhai sy'n dod i gysylltiad ag afonydd yn seiliedig ar ba mor grynodedig neu wanedig yw'r dŵr gwastraff.	Dim gwybodaeth	Lloegr a Chymru	SHP	Y	Aneglur
28	Adrodd am Gyfleusterau Deunyddiau (gwastraff)	Lle - Adrodd am Gyfleusterau Deunyddiau (llyw.cymru)	Gweithredwr yn adrodd yn chwarterol, data samplu mewnbyn ac allbwn y mae'n ofynnol i Gyfleusterau Deunyddiau cymwys eu darparu dan y rheoliadau.	Mae'n bosibl y bydd trwytholchi cemegau a ddefnyddir mewn cyfleusterau deunyddiau yn gallu cyd-ddewis ar gyfer AMR	2021	Cymru	XLSX	Y	N
29	Polygonau adnoddau mwynau Cymru fersiwn 1	Polygonau adnoddau mwynau Cymru fersiwn 1 - data.gov.uk	Sylfaen wybodaeth gynhwysfawr, berthnasol a hygyrch i wella cynaliadwyedd adnoddau mwynau i Gymru.	Mae'r map mwynau hwn yn cynnwys data ar fwynau metelaidd sy'n gallu cyd-ddewis ar gyfer AMR	2020	Cymru	SHP	Y	N
30	Atodiad adroddiad Ofwat ar "Trin, cludo a gwaredu slwtsh - tystiolaeth ategol ac opsiynau dylunio"	https://www.ofwat.gov.uk/wp-content/uploads/2015/12/pap_tec20151210water2020app_1.pdf	Data rhanbarthol cyfyngedig ar gyfraddau cynhyrchu slwtsh carthion, ond gyda graffiau o gapasiti canolfannau trin slwtsh, ond yn canolbwyntio'n gyffredinol ar economeg.	Gall taenu biosolidau ar dir fod yn fecanwaith pwysig ar gyfer lledaenu AMR yn yr amgylchedd ac yn ffynhonnell cysylltiad i bobl trwy grwydro, bwyd ac aerosolau.	Adroddiad 2015	Lloegr a Chymru	PDF	N	Y
31	Rhwydwaith Llwybrau Manwl yr OS	https://www.ordnancesurvey.co.uk/business-government/products/path-network	Mae Rhwydwaith Llwybrau Manwl OS yn rhwydwaith llwybrau ag uchder, llawn-gysylltiedig sy'n cwmpasu Parciau Cenedlaethol Prydain.	Gall llwybrau sy'n croestorri â ffermydd sy'n cael eu diwygio â slwtsh neu fiodolau fod yn fecanwaith trosglwyddo AMR i bobl sy'n crwydro, anifeiliaid anwes a bywyd gwyllt.	Posiblwydd i archebu'r fersiwn mwyaf diweddar	Prydain Fawr	GPKG	Y	N
32	Haen Rhwydwaith Dŵr MasterMap OS	https://www.ordnancesurvey.co.uk/business-government/products/master-map-water	Mae Haen Rhwydwaith Dŵr MasterMap OS yn cynnig un o rwydweithiau dŵr mwyaf manwl ac uchder y byd, gan ddangos llif a chwrs manwl gywir pob afon, nant, llyn a chamlas ym Mhrydain Fawr.	Mae map rhwydwaith dŵr yn offeryn hanfodol	Diweddarir yn Chwarterol - Ebrill, Gorffennaf, Hydref, Ionawr	Prydain Fawr	FGDB	Y	N
33	Afonydd Agored OS	Afonydd Agored OS - data.gov.uk	Mae data GIS Afonydd Agored OS yn cynnwys dros 144,000 km o gyrff dŵr a data mapio cyrsiau dŵr. Mae'r rhain yn cynnwys afonydd dŵr croyw, aberoedd llanw a chamlesi.	Mae haen afon yn anghenraid sylfaenol ar gyfer gwneud y math hwn o waith. Mae'r haen ddata hon yn fwy manwl na'r cywerth WFD.	2021	Prydain Fawr	SHP	Y	N

ID	Teitl	URL	Disgrifiad set ddata	Defnydd mewn gwyliadwriaeth AMB	Ehangder amserol	Ehangde r gofodol	Fformat data	Geo-ofodol	Angen diweddar u?
